CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG dyddiad newydd (WHC/2024/010)

Gwybodaeth a ddiweddarwyd am y Gynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru efo manylion am sut i ymgeisio.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Manylion**

**Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru, diweddariad**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion

## Statws:

Gweithredu.

## Categori:

Y gweithlu.

## Teitl:

Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru, diweddariad.

## Dyddiad dod i ben:

30 Mehefin 2024.

## I’w weithredu gan:

- Prif weithredwyr y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr meddygol y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr ac arweinwyr ymchwil a datblygu y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr gweithredol nyrsio y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr therapïau a gwyddorau iechyd y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr cynllunio y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cyfarwyddwyr gofal sylfaenol y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr gweithlu a datblygu sefydliadol y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.
- Cyfarwyddwyr cyllid y byrddau iechyd / yr ymddiriedolaethau.

## Angen gweithredu erbyn:

Uniongyrchol.

## Anfonwr:

Rachel Gardiner,
Newid Hinsawdd ac EPH,
y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
**Rachel.Gardiner@llyw.cymru**.

## Enw(au) cyswllt Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru Llywodraeth Cymru:

Y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd:

- Ann Corp, Newid Hinsawdd ac Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. **Ann.Corp@llyw.cymru**.
- Maureen Potter, Newid Hinsawdd ac Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. **Maureen.Potter@llyw.cymru**.
- Blwch Post Argyfwng Hinsawdd ac Amgylchedd ac Iechyd y Cyhoedd: **IGC.ArgyfwngHinsawddacEPH@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Dogfennau amgaeedig:

**Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru**:
**Dogfen Categorïau a Chanllawiau**.
**Poster Gwnewch Gais Nawr**.
**Poster Arbed y Dyddiad**.

# Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru, diweddariad

## Y cefndir

Yn 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd i Gymru er mwyn sbarduno mwy o ffocws a gweithgarwch wrth inni ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

Mae gan Gymru darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050, ochr yn ochr ag uchelgais i'r sector cyhoeddus cyfan fod yn garbon sero net erbyn 2023.

Yn 2018 i 2019, amcangyfrifwyd mai 1,001,378 tCO2e oedd **ôl troed carbon GIG Cymru**, ac mae'r 'allyriadau iechyd' hyn oddeutu 2.6% o gyfanswm allyriadau Cymru.

Er mai Llywodraeth Cymru sydd wedi sefydlu'r Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd, gyda'r nod o hwyluso'r math o arweinyddiaeth a chydweithredu y mae eu hangen i gyrraedd sero net a chreu sector sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn cydnabod mai holl staff GIG Cymru sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod newidiadau cynaliadwy yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cael eu gweithredu’n llwyddiannus.

## Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru

Mae **Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG**, dan arweiniad Hywel Dda gyda chefnogaeth cydweithwyr o bob rhan o GIG Cymru, wedi cael eu sefydlu a'u lansio i hyrwyddo egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy a chefnogi’r ymgyrch i ymwreiddio arferion cynaliadwy mewn gofal clinigol.

Gofynnwn yn garedig i chi gymryd rhan.

## Dyddiad newydd

Gan gydnabod y pwysau mae'r GIG yn ei wynebu dros y gaeaf, ac i fanteisio ar flwyddyn ariannol lawn o gynnal prosiectau, mae'r penderfyniad wedi'i wneud i newid dyddiad y gynhadledd a'r gwobrau.

Mae'r dyddiadau newydd fel a ganlyn:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno prosiectau: 10 Mai 2024.

Y dyddiad ar gyfer y Gynhadledd a'r Gwobrau: 13 Mehefin 2024.

Bydd estyn y dyddiadau hyn yn ein galluogi i ymwreiddio mwy o weithgareddau yn ein llwybrau gofal, lleihau ein hallyriadau carbon ymhellach, a rhoi gofal iechyd cynaliadwy a'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd popeth a wnawn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gofynnwn am eich cymorth

Rydym yn gofyn i'r holl gydweithwyr sy'n cael copi o'r cylchlythyr iechyd hwn raeadru a hyrwyddo'r wybodaeth ynglŷn â Chynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG a'r dyddiadau newydd, drwy rwydweithiau a sianeli cyfathrebu eu staff.

**Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru**

Cynhelir Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru ar 13 Mehefin 2024 yng Ngwesty'r Vale, Caerdydd.

Y gynhadledd: fe'ch gwahoddir i '**Arbed y Dyddiad**' ac ymuno â ni ar gyfer diwrnod lle bydd cyfle i fwynhau arddangosfeydd a gwrando ar anerchiadau pwysig gan ein siaradwyr, sy'n canolbwyntio ar ofal clinigol; y mannau lle mae problemau carbon yn eich gwasanaethau; a'r angen i sicrhau gwerth cynaliadwy.

Mae'r siaradwyr sydd wedi'u cadarnhau yn cynnwys:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru
- Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Y Gwobrau: Beth am gymryd rhan eich hunain? Gallwch ymgeisio drwy gyflwyno prosiect cynaliadwyedd mewn un o'r naw categori o wobrau cyn 10 Mai 2024 i gael y cyfle i fod yn rhan o fwrlwm y digwyddiad unigryw hwn. **Darllenwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y digwyddiad** a **chofrestrwch eich cais yma**!

Cofion cynnes,
Irfon Rees,
Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Llywodraeth Cymru.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynhadledd-gwobrau-cynaliadwyedd-cymru-gig-dyddiad-newydd-whc2024010-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.